# CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Teitl yr eitem:** | Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Dilwyn Morgan, Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant |
| **Swyddog perthnasol:** | Aled Davies, Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 26/11/2024 |

## 1. Penderfyniad a Geisir:

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

## 2. Y rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad:

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad yn effeithiol.

## 3. Cyflwyniad a Rhesymeg

3.1 Pwrpas yr adroddiad yw i ddiweddaru fy nghyd aelodau ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y meysydd yr wyf yn gyfrifol amdanynt fel yr Aelod Cabinet dros Oedolion, Iechyd a Llesiant. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r hyn sydd wedi digwydd yn erbyn addewidion Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-2028; lle mae'r mesurau perfformiad arni; a'r diweddaraf o ran sefyllfa ariannol yr adran.

3.2 Hoffwn eich atgoffa bod yr holl faterion wedi eu trafod mewn cyfarfod rhyngof i, y Cyfarwyddwr Corfforaethol a chynrychiolaeth o'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant. Roedd cynrychiolwyr o'r Pwyllgor Craffu Gofal yn bresennol hefyd. Dylid nodi fod gwybodaeth Mai, Mehefin, Gorffennaf, Awst a Medi 2024 wedi'i graffu yn y cyfarfod hwnnw ym mis Hydref ac nid wyf yn bwriadu manylu ar bob mesurydd a phrosiect ond rwyf wedi amlinellu'r meysydd penodol sydd i'w llongyfarch neu sydd angen eu datblygu ymhellach.

## 4. Prosiectau Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28

4.1 Isod, mae diweddariad fesul prosiect i amlygu'r prif feysydd sydd wedi gweld cynnydd neu sy'n peri pryder ond dylid nodi nad wyf yn cyfeirio at bob un llif gwaith gan fod prosiectau'r adran yn eang iawn.

**Moderneiddio ein hadnoddau gofal i gwrdd ag anghenion y dyfodol**

4.2 Mae'r gwaith ar uwchraddio ein cartrefi yn y Bermo a Dolgellau wedi'i gwblhau, gyda'r broses o adnabod unigolion ar gyfer y gwelyau ychwanegol yn y Bermo yn mynd rhagddo.

4.3 Un o'r materion oedd yn heriol i'r adran oedd nad oedd y Cyngor bellach yn gweithredu fel landlord yn dilyn allanoli stoc tai cymdeithasol yn 2014, ac roedd aneglurder ar allu'r Cyngor i wneud hynny ar eiddo fyddai'n lety i unigolion sy'n derbyn cefnogaeth yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant i'r dyfodol. Rydym bellach wedi llwyddo i gael sicrwydd ar y mater a chadarnhad y bydd modd i'r Cyngor weithredu fel landlord a darparu tenantiaeth i unigolion mewn datblygiadau fel Tŷ Meurig. Mae hyn yn newyddion da i'r adran ac yn golygu mwy o reolaeth dros y ddarpariaeth yn y math yma o ddatblygiadau.

4.4 Mae'r adran yn rhagweld llithriad bychan yn yr amserlen ar gyfer un o'r ddau dŷ a chefnogaeth oedd i fod yn barod erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd y tŷ hwnnw ym Mhwllheli yn barod cyn Haf 2025. Rydym dal yn rhagweld y bydd y tŷ ym Mhenrhyndeudraeth yn barod erbyn gwanwyn 2024.

**Defnyddio mwy ar dechnoleg i wella gallu trigolion Gwynedd i gael mynediad at gefnogaeth a gofal**

4.5 Mae tua 50% o becynnau teleofal bellach wedi eu trosglwyddo i'r offer digidol newydd, gyda cynlluniau mewn lle i ganolbwyntio ar ardaloedd penodol yn eu tro a throsglwyddo'r gweddill i gyd erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

**Cydweithio gyda Gwasanaethau Iechyd i alluogi pobl i fyw eu bywyd gorau yn y gymuned**

4.6 Mae sefydlu trefniadau cyfathrebu a chyfarfod rheolaidd ar gyfer y Timau Adnoddau Cymunedol (sy'n cynnwys y Bwrdd Iechyd, y Cyngor a darparwyr gofal) wedi eu sefydlu, a cham nesaf y gwaith yma yw i symud ymlaen ar waith cyd-leoli pellach.

4.7 Rydym hefyd wedi alinio ardaloedd y Timau Adnoddau Cymunedol gydag is-ardaloedd gofal cartref ar ein systemau. Mae hyn yn galluogi gwell cydweithio ar lefel lleol iawn gyda darparwyr gofal.

4.8 Rydym wedi gweld llithriad yn yr amserlen ar gyfer cryfhau ein systemau cydweithio i alluogi rhyddhau pobl o'r ysbyty yn fwy effeithlon. Rydym wedi adnabod fod gallu'r systemau data cleifion ysbyty yn gyfyngedig ac felly bydd angen gwaith datblygu pellach ar draws y 5 Tim Adnoddau Cymunedol i fedru cyrraedd lle lle'r ydym yn hyderus ein bod yn adnabod cleifion sy'n wynebu oedi i ryddhau a'r rheswm dros yr oedi cgaph.

4.9 Yn dilyn sefydlu'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl newydd, mae trefniadau cydweithio newydd gydag Iechyd wedi eu sefydlu ac adolygiad cychwynnol wedi ei gynnal i sicrhau fod y trefniadau hyn yn gadarn.

**Datblygu cyfleon hyfforddi a gwaith ar gyfer unigolion sydd angen cefnogaeth**

4.10 Yn dilyn y gwaith tendro ar gyfer datblygu Canolfan Dolfeurig, cafwyd dau ymgeisydd am y gwaith ond roedd y prisiau tendr yn sylweddol uwch na'r hyn oedd wedi ei ragweld

a’r gyllideb ar ei gyfer. Roedd y pris isaf yn £3.6m, gyda oddeutu £2m wedi ei ymrwymo ar gyfer y cynllun gan y Cyngor. Mae felly bwlch o £1.6 i’w lenwi. Rydym wedi bod yn trafod gyda Llywodraeth Cymru am y posibilrwydd o ariannu’r bwlch yng nghostau’r cynllun a’n bod yn disgwyl penderfyniad buan iawn.

4.11 Mae’r Cydlynydd Llwybr Gyrfa Anabledd Dysgu wedi cychwyn yn ei swydd ac mae’r effaith o’r adnodd ychwanegol i’w weld yn barod gyda 12 unigolyn newydd wedi eu cyfeirio i’r prosiect ers ei phenodiad. Mae’r adran hefyd yn edrych ar arallgyfeirio arian o fewn y gwasanaeth i fedru cyllido Swyddogion Cefnogol y prosiect i’r tymor hirach er mwyn sicrhau fod digon o adnodd i fod yn hyrwyddo cyfleon gwaith a chefnogi unigolion i waith cyflogedig. Mae mwy o wybodaeth ar hyn i’w ganfod wrth drafod y mesuryddion isod.


**Llechen Lân**

4.12 Nodais yn fy adroddiad diwethaf fod argymhellion yr adroddiad wedi eu cytuno yn y cyfarfod hwnnw ac mai’r cam nesaf oedd i gadarnhau’r amserlen ar gyfer y gwaith a phenodi pwy fydd yn arwain ar y wahanol argymhellion. Mae hyn eisoes wedi’i gwblhau a’r cynllun gweithredu wedi’i gymeradwyo gan y Cabinet fis Hydref.

## 5. Perfformiad a Mesurau

5.1 Mae’r adran yn parhau gyda'r gwaith i gryfhau eu trefniadau a’u mesurau perfformiad ac yn gwneud cynnydd ar hynny o gyfarfod i gyfarfod. Mae gwaith yn digwydd ers tro i sefydlu mesur newydd ar fodlonrwydd y cyhoedd ar y gwasanaethau a ddarperir ac er ein bod wedi dod ar draws heriau, mae bwriad i ail-ysgogi’r gwaith. Mae nifer o fesurau gan yr adran bellach ond byddaf yn cyfeirio isod at y rhai sy’n peri pryder neu’n destun llongyfarch.

5.2 O fewn y **Gwasanaeth Pobl Hŷn, Anableddau Corfforol a Synhwyraidd** mae’r rhestr aros ar gyfer derbyn asesiad gofal yn parhau i gynyddu gyda 72 unigolyn wedi bod yn aros am fwy na 90 diwrnod ddiwedd mis Medi. O’r rhain, roedd 40 yn aros am asesiad therapi galwedigaethol sydd yn ymddangos yn debyg iawn i’r tro diwethaf i mi adrodd ym mis Mai. Mae’r gweddill yn aros un ai am asesiad Ymarferydd Gwaith Cymdeithasol neu asesiad Gweithiwr Cymdeithasol. Mae’r adran yn bwriadu gwneud gwaith pellach i fedru adnabod yn haws os mai asesiadau offer neu gofal yw’r achosion sy’n aros am Ymarferydd – mae’n debygol felly fod y ffigwr sy’n aros am asesiad therapi galwedigaethol ers dros 90 diwrnod rhywfaint yn uwch na 40 mewn




gwirionedd. Mae'r adran wedi nodi y bydd y sefyllfa'n gliriach erbyn yr adroddiad nesaf. Mae Ymarferwyr Gwaith Cymdeithasol y rhan fwyaf o ardaloedd bellach yn gallu cynnal asesiadau fwy cymhleth yn dilyn cwblhau cwrs BTEC a gobeithir gweld effaith hyn ar y rhestrau aros am asesiad offer yn fuan. Fodd bynnag, mae heriau'n parhau mewn rhai ardaloedd, gyda De Meirionnydd wedi colli therapydd llawn amser ac yn methu denu Uwch Therapydd. Mae hyn yn fater o bryder sylweddol gan fod na unigolion yn yr ardal yma yn gorfod aros hyd yn oed pan mae eu achosion yn rhai brys. Fe wnaeth y gwasanaeth gadarnhau fod yr Arweinydd Therapi yn edrych ar y sefyllfa ac ar y posibilrwydd o fenthyg adnodd o ardaloedd eraill ar frys.

5.3 Yn fy adroddiad diwethaf, roeddwn yn nodi fod y canran o oriau **gofal cartref** sydd heb eu diwallu ar ei isaf ers blwyddyn (10% ddiwedd Ebrill). Gwelsom leihad sylweddol i lawr i 8% ym mis Gorffennaf ond roedd y ganran yn ôl yn 11.6% erbyn diwedd Hydref. Roedd yr 11.6% yma yn cynnwys 112 o unigolion yn aros am becyn o'r newydd a 26 yn aros am gynnydd i becyn presennol. Fodd bynnag, mae pryderon yn parhau am gywirdeb y data gan fod anghenion bobl a'r niferoedd ar y rhestr aros yn newid mor gyson o ddydd i ddydd. Eglurodd y gwasanaeth bod gwaith wedi bod yn mynd rhagddo i ddatblygu system i sicrhau ei fod yn fwy cywir i'r dyfodol ac mae hyn i'w groesawu. Ar ddiwrnod y cyfarfod (22 Hydref 2024), roedd y nifer yn aros am becyn o'r newydd yn 90, sydd dal yn uchel ond yn dod i lawr.


5.4 Mae'r rhestrau aros am ofal cartref yn parhau o ganlyniad i ddiffyg gallu darparwyr i gwrdd â'r galw mewn ambell i ardal – Tywyn, Pwllheli, Eifionydd a Llanberis yn benodol. Mae'r gwasanaeth Sicrwydd Ansawdd yn cydweithio'n agos gyda nifer o ddarparwyr i'w cefnogi gyda'r heriau presennol. Yn ogystal, mae'r gwasanaeth gofal cartref mewnol yn ailedrych ar batrymau gwaith ac yn treialu patrwm newydd mewn ambell ardal er mwyn ceisio mynd i'r afael a'n gallu i gyfarch y rhestr aros a darparu'n effeithiol. Mae mwy o wybodaeth am y materion hyn yn paragraff 6.3.

5.5 Rydym wedi gweld cynnydd pellach unwaith eto yn y nifer sydd ar y llwybr cyfleon gwaith yn y gwasanaeth **Anabledd Dysgu**, ac mae'r nifer o unigolion sydd ar y llwybr cyfleon gwaith wedi cynyddu eto o 99 yn Ebrill 2024 i 109 erbyn Medi 2024. Rwy'n hynod o falch o nodi'r niferoedd yma ac yn dymuno llongyfarch y gwasanaeth ar eu gwaith gwych. Mae'r Cydlynydd Cyfleon Gwaith newydd wedi bod yn cydweithio gyda cwmni Agoriad i sefydlu trefniadau rhwydweithio a hyrwyddo'r cynllun, ac mae trafodaethau cychwynnol hefyd yn mynd rhagddynt ar ffyrdd o gynyddu cyfleoedd cyflogaeth posib gan y Cyngor ei hun. Rwy'n teimlo bod y rhan yma o'r gwaith yn hollbwysig a bod cyfrifoldeb arnom fel Cyngor i feddwl sut allen ni gyfrannu ein hunain at y cynllun, felly byddwn yn ddiolchgar iawn pe bai modd i fy nghyd-aelodau hyrwyddo hyn ymysg eu meysydd portffolio a chysylltu â mi ag unrhyw syniadau.





5.6 Rwyf yn falch iawn o nodi fod ein cyfradd llenwi gwelyau mewn **cartrefi preswyl** mewnol yn well na'r ydym wedi ei weld ers amser hir, gan gyrraedd 85% ddiwedd Medi. Yn dilyn gwaith adnewyddu llofftydd bu cynnydd yn y defnydd o welyau yn ein cartref yn Nefyn ac mae hyn wedi cyfrannu at y gwelliant. Fodd bynnag, mae dal rhai gwelyau nad yw'n bosib eu defnyddio oherwydd gwaith sy'n mynd rhagddo yn y cartrefi a pe baen ni'n eithrio'r gwelyau hyn byddai ein cyfradd llenwi yn 90%. Rwy'n falch fod popeth bellach wedi ei gwblhau yn Hafod Mawddach a'r gwelyau ar gael i'w defnyddio, a thrafodaethau'n digwydd gyda'r Tîm Adnoddau Cymunedol lleol er mwyn adnabod unigolion addas. Rydym yn rhagweld gweld yr Uned Dementia newydd mewn defnydd dros yr wythnosau nesaf. Mae ychydig o waith pellach eto i'w gwblhau yn ein cartrefi ym Mangor a Nefyn hefyd cyn bydd modd gwneud defnydd llawn.

5.7 Mae'n destun pryder i adrodd ein bod wedi gweld lleihad sylweddol ym mherfformiad yr adran ym maes **Diogelu Oedolion**. Mae'r canran ymholiadau amddiffyn oedolion sydd wedi'u cwblhau o fewn 7 diwrnod wedi syrthio i 84% dros y misoedd diwethaf, a'r data yn awgrymu fod y canran o achosion lle mae'r perygl wedi ei reoli yn 57% ar ôl bod ar 100% mwy neu lai yn gyson ers cyfnod hir. Rwyf wedi cwestiynu hyn yn y cyfarfod gyda'r adran ac wedi derbyn eglurhad fod cyfnod hir dymor o salwch y Swyddog Diogelu wedi effeithio ar hyn a'r ffaith fod y baich gwaith ymchwilio a chofnodi yn syrthio ar yr Arweinyddion Ardal ar ben eu llwyth gwaith arferol nhw. Yn anffodus, bu ymdrechion yr adran i lenwi'r swydd Swyddog Diogelu dros dro hefyd yn ofer a doedd dim diddordeb yn y swydd. Fodd bynnag, er fod y ffigurau yn portreadu darlun pryderus, derbyniais eglurhad gan yr adran mai diffygion cofnodi yn briodol ydi'r prif anhawster yma. Mae'r adran yn ffyddiog fod y cyfeiriadau hyn wedi eu cefnogi a'r perygl wedi ei reoli yn y rhan fwyaf o'r achosion ond nad yw'r ffurflenni'n cael eu cau yn gywir ar y system gofnodi. Mae'r adran bellach wedi cywiro hyn ac erbyn hyn mae'r data yn dangos fod y canran o ymholiadau a gwblhawyd o fewn yr amserlen statudol yn 86% ar gyfer mis Medi a'r canran o achosion lle mae'r perygl wedi ei reoli yn 100% ar gyfer yr un cyfnod.



Rwyf wedi gofyn i’r adran am sicrwydd erbyn y cyfarfod nesaf ar y ffordd ymlaen i lenwi’r bwlch mewn capasiti tra fod y Swyddog Diogelu ar gyfnod o salwch.




5.8 Rwy’n falch o adrodd ein bod wedi gweld cynnydd pellach yn y canran o oedolion sy’n derbyn eu gwasanaethau drwy **daliadau uniongyrchol** (18% erbyn diwedd Medi o’i gymharu â 15% ym mis Ebrill 2024) – mae hyn gyfystyr a 227 unigolyn ar draws y sir. Mae’r gwaith i addasu’r drefn cefnogi yn ogystal â hyrwyddo’r gwasanaeth ymysg y timau gwaith cymdeithasol wedi helpu. Gobeithio’n wir y byddaf yn medru adrodd cynnydd pellach i chi yn ein cyfarfod nesaf wrth i’r Tîm Taliadau Uniongyrchol sefydlu ei hun a pharhau i ddatblygu. Mae’r gwaith yma wrth gwrs yn hollbwysig i leihau’r pwysau ar ein darparwyr gofal a sicrhau mwy o reolaeth i unigolion ar eu trefniadau gofal.

5.9 Da yw diweddaru hefyd bod y gwaith i gysoni trefniadau a sicrhau fod pawb yn talu yr un ffi am y gwasanaeth teleofal wedi ei gwblhau ac rydym yn gweld hyn yn y cynnydd cyson yn y niferoedd sy’n talu’r ffi wythnosol. Erbyn hyn, mae 1,426 o ddefnyddwyr yn talu’r ffi wythnosol ar draws y sir. Mae’r gwaith o hyrwyddo’r gwasanaeth hefyd wedi cyfrannu ac mae modd bellach i unigolion archebu offer yn syth oddi ar y wefan heb orfod codi’r ffôn.

5.10 Un mater o bryder sylweddol i mi yn y cyfarfod oedd nad oedd gwybodaeth am y maes Gofalwyr Di-Dâl i'w weld yn y papurau. Nid oes mesuryddion wedi bodoli ar gyfer y gwasanaeth yma ers peth amser gan eu bod ynghanol datblygu rhai newydd. Fodd bynnag, mae’r maes yma yn faes blaenoriaeth ac yn faes sydd yn cael llawer o sylw gyda gwaith da yn digwydd, ond mae diffyg mesuryddion yn ei wneud yn anodd iawn i mi fel aelod cabinet fedru cyflwyno diweddariadau i chi fel cyd-aelodau a rhoi sicrwydd i chi ar ein llwyddiant i gefnogi gofalwyr di-dâl yn effeithiol. Rydw i wedi gofyn i’r adran roi sylw i hyn ar frys erbyn y cyfarfod nesaf ym mis Rhagfyr.

## 6. Sefyllfa Ariannol

6.1 Adroddwyd gorwariant o £3.9m ar gyllideb yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant ar gyfer y flwyddyn ariannol 2023/24. Mae’r adran wedi bod yn gweithio i leihau y gorwariant drwy fesurau effeithlonrwydd, ac mae’r cabinet wedi cyfeirio adnoddau ychwanegol i’r adran drwy’r broses bidio ar gyfer cyllideb 2024/25. Cafodd ei gydnabod fod elfennau o’r ‘gorwariant’ i lawr i dan-gyllidebu yn hytrach na gorwario – mae’r pwysau ar y gwasanaethau Oedolion yn gynyddol ac nid yw’r cyllidebau yn cynyddu i gyd-fynd. Wedi i’r Cabinet ddyrannu adnoddau ychwanegol ac i’r adran wneud cynnydd ar fynd i’r afael â’r gorwariant mewn rhai meysydd (yn bennaf ffioedd cartrefi preswyl a nyrsio),

rhagwelir gorwariant o £2.6m ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024/25. Bydd gennym well syniad o'r gwir ffigwr erbyn y byddwn yn adrodd eto ym mis Rhagfyr.

6.2 Cafodd cynlluniau arbedion hanesyddol gwerth £1.48m eu dileu gan y Cabinet yn ei gyfarfod ar y 7/11/23, gan nad oedd modd gweithredu ar y cynlluniau oherwydd newid mewn amgylchiadau/pwysau cynyddol ar y gwasanaethau. Er hynny, oherwydd y pwysau ariannol sy'n cael ei ragweld ar gyfer 2024/25 ac ymlaen, mae cynlluniau arbedion newydd gwerth oddeutu £1.45m wedi'u ychwanegu i gyllideb yr adran ar gyfer 2024/25. Mae cyfarch yr arbedion yma yn profi'n anodd yn yr amgylchiadau sydd ohoni, ond mae adnodd adolygu pecynnau gofal wedi ei sefydlu i weithio ar rai o'r cynlluniau arbedion. Mae'r cynlluniau arbedion lle ragwelir na fydd modd eu darganfod wedi eu cynnwys yn yr amcan gorwariant o £2.6m. Eto, fe gawn ddarlun fwy cyflawn yn yr adolygiad nesaf ym mis Rhagfyr.

6.3 Un o'r prif feysydd sy'n gorwario yw'r gwasanaethau gofal cartref (mewnol a preifat). Mae grŵp wedi'i sefydlu o dan arweiniad y Pennaeth Oedolion i fynd i'r afael â'r maes yma. Rwyf yn derbyn diweddariad rheolaidd gan y grŵp ar gynnydd y gwaith. Mae adnodd ychwanegol dros dro wedi'i roi mewn er mwyn cynorthwyo efo'r materion sydd yn cyfrannu at y gorwariant sylweddol yn y ddarpariaeth mewnol yn benodol. Mae mesurau'n cael eu rhoi mewn ar hyn o bryd fydd yn gwella'r gwasanaeth i unigolion a'r gweithlu, a'r gobaith ydi y bydd y mesurau yma hefyd yn lleihau'r gorwariant, er fod hynny'n anodd pan fo gymaint ar y rhestr aros am ofal hefyd. Un enghraifft o'r llawer o fesurau sydd wrthi'n cael eu rhoi mewn lle ydi newid i batrwm gwaith staff mewnol fel fod fwy o adnoddau gofal ar gael yn ystod yr oriau o'r dydd y mae'r gofyn am wasanaethau ar ei uchaf (yn y bore a gyda'r nos). Dylid nodi fod archwiliad mewnol wedi ei gwblhau yn ddiweddar ar wariant gofal cartref, ac mae'r adran hefyd newydd gael archwiliad gan Archwilio Cymru ar ofal cartref.

6.4 Mae'r gwaith yn parhau o dan arweiniad y cyfarwyddwr corfforaethol Huw Dylan Owen i edrych ar 'Llechen Lân' ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol. Hynny yw, sut fydd ymarfer da o ran Gwasanaethau Cymdeithasol yn edrych i'r dyfodol, a faint fyddai'r gwasanaethau hynny'n ei gostio. Fe aeth yr adroddiad gerbron y Cabinet ar y 15/10/24, a cafwyd cymeradwyaeth i fwrw ymlaen efo'r argymhellion. Un ohonynt yw gofyn i'r Pennaeth Cyllid arwain ar ddatblygu cynlluniau cyllidebu sy'n seiliedig ar dystiolaeth, yn unol â'r adroddiad.

## 7. Sylwadau Swyddogion Statudol

### 7.1 Prif Swyddog Cyllid

Rwyf yn fodlon fod yr adroddiad yn adlewyrchiad teg o sefyllfa ariannol yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant.

### 7.2 Swyddog Monitro

Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb.